Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Polisi Gwiriad Lles Plant ac Oedolion Aml-Asiantaeth



**Cadarnhawyd gan y Bwrdd**
**Mawrth 2022**

**Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau**

**Dyddiad Adolygu**
**Mawrth 2025**

| **Cynnwys** | **Rhif y Dudalen** |
|---|---|
| Nodau'r Polisi | 3 |
| Diffiniadau | 3 |
| Cefndir a Gwybodaeth | 3 |
| Gweithredol – gwneud cais a derbyn cais | 3 |
| Ceisiadau am Wiriadau Lles Nad yw'n Ymwneud â Gwent | 7 |
| Pan na ddiwellir y Trothwy am Wiriad Lles | 7 |
| Polisi Uwchgyfeirio | 7 |

## Nodau'r Polisi

Rhoi eglurder i Ofal Cymdeithasol, Heddlu Gwent, a staff asiantaethau eraill sy'n bartneriaid, a hynny ynglŷn â chynnal gwiriadau lles ar gyfer unigolion a allai fod mewn perygl o niwed.

Mae hyn yn cynnwys:

- Amlinellu a darparu cyfarwyddyd pan fydd gwiriad lles yn briodol.
- Gofynion gweithdrefnol a chofnodi angenrheidiol.
- Datrys ac uwchgyfeirio os bydd pryderon gan asiantaethau.
- Unrhyw gefndir cyfreithiol i geisiadau o'r fath

## Diffiniad

Mae'r broses wirio lles yn disgrifio pan ofynnir i'r Heddlu ymgysylltu â phlant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed, a cheisio rheoli unrhyw risgiau sy'n ymwneud â diogelu.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i geisiadau am archwiliadau lles i Heddlu Gwent gan asiantaeth arall.

## Gwybodaeth Gefndir

Mae'r polisi hwn yn darparu cefnogaeth i ymarferwyr o feysydd gofal cymdeithasol, Heddlu Gwent, ac asiantaethau eraill i gyflawni eu cyfrifoldebau ar y cyd i ddiogelu'r cyhoedd yng Ngwent, a hynny mewn ffordd effeithiol. Mae'n hanfodol bod yr holl asiantaethau'n gweithio ar y cyd i gefnogi ei gilydd i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn ac ni ddylai fod unrhyw rwystrau i asiantaethau sy'n ceisio gofyn am wiriad lles mewn amgylchiadau y maen nhw, o fewn eu gallu proffesiynol, yn teimlo bod angen gweithredu o'r fath.

Nid yw'n bosibl darparu rhestr ddiffiniol o amgylchiadau lle y byddai gwiriad lles yn briodol, a bydd angen ystyried pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun o fewn y meini prawf sydd wedi eu gosod yn y polisi hwn.

Mae'r gyfraith yn rhoi pwerau penodol i swyddogion yr Heddlu i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau, nad ydynt yn cael eu rhoi ar asiantaethau eraill, fel pŵer i gael mynediad i eiddo, yn ogystal â'r offer, hyfforddiant, a mecanweithiau i orfodi eu pwerau. Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod adnoddau'r Heddlu'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau posib, i gyflawni dyletswydd cydweithredol cyrff cyhoeddus i ddiogelu unigolion.

Mae'n bwysig nodi y bydd swyddogion yr Heddlu yn atebol am eu penderfyniadau wrth arfer y pwerau hyn, ond mae eu penderfyniadau'n debygol o fod yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd iddynt gan asiantaethau eraill sy'n defnyddio'r fath bwerau.

Nid yw swyddogion heddlu wedi'u hyfforddi na'u harfogi i gynnal asesiadau clinigol ar iechyd meddwl na lles unigolyn, waeth pa mor bwysig yw mater na pha mor ar frys ydyw, ac nid yw'n briodol iddynt gyflawni rôl ymarferydd gofal iechyd.

## Gweithredol – Gwneud cais a derbyn cais

Dylai asiantaethau allanol wneud cais i Heddlu Gwent gynnal 'gwiriadau lles' ar oedolion a phlant sy'n fregus pan fo meini prawf penodol yn cael eu bodloni:

Y meini prawf i'w bodloni yw:

- **Credir yn rhesymol bod oedolyn neu blentyn mewn perygl uniongyrchol o niwed.**

Byddai'n rhaid bod gan y cyfeiriwr bryderon am y perygl uniongyrchol o niwed i'r plentyn neu'r oedolyn. Y disgwyl fyddai i'r cyfeiriwr fod wedi ceisio cysylltu â'r plentyn neu'r oedolyn cyn gofyn am wiriad lles.

Gweler y ddolen ar gyfer diffiniadau allweddol o ran plant ac oedolion (Gweithdrefnau Diogelu Cymru),
https://www.safeguarding.wales/chi/c3pt2/c3pt2.p3.html?highlight=determination a
https://www.safeguarding.wales/adu/a3pt1/a3pt1.p13.html?highlight=determination

Os cytunir ar wiriad lles, bydd Swyddog yr Heddlu bob amser yn bresennol os;

- Oes perygl amlwg ac uniongyrchol i fywyd neu eiddo.
- Os oes rheswm i gredu bod trosedd wedi cael ei chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni.

Gall enghreifftiau gynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i:

- Lle credir yn rhesymol, yn seiliedig ar ddeallusrwydd a gwybodaeth wedi'u dogfennu, bod unigolyn sy'n 'peri risg' yn ymweld â theulu. Byddai manylion dyddiad/amser/lle yn atgyfnerthu hyn.
- Mae angen ymweliad y tu allan i oriau lle y credir bod plant wedi cael eu gadael gartref heb oruchwyliaeth.
- Mae angen ymweliad y tu allan i oriau pan credir bod 'ymddygiadau oedolion' yn achosi perygl uniongyrchol i unigolyn arall er enghraifft, ymddygiad rhywiol, camddefnyddio sylweddau, cam fanteisio.
- Pan gafwyd cyfarwyddyd gan lys, neu os gwnaed cais am orchymyn llys a bod y broses wedi achosi oedi, mae yna berygl y gallai niwed ddod i ran plentyn neu oedolyn.
- Os yw plentyn neu oedolyn yn fregus neu os oes rheswm i gredu bod ei iechyd gynddrwg, a byddai amgylchiadau yn awgrymu bod angen sylw meddygol arnynt neu fod yna farwolaeth.

***Dylid cymryd bod 'rheswm i gredu' yn golygu****, yng ngoleuni'r holl ffeithiau ac amgylchiadau y gwyddys amdanynt, byddai person* ***rhesymol*** *yn* ***credu****, o dan y ffeithiau a'r amgylchiadau hynny, bod gweithred, digwyddiad, neu sefyllfa, yn digwydd, gallai ddigwydd neu y mae wedi digwydd.*

Bydd Heddlu Gwent yn derbyn y cyfrifoldeb am gynnal gwiriadau ar les plant ac oedolion bregus, pan bodlonir unrhyw rhai o'r meini prawf a nodir yn y polisi hwn.

Noder:

Pan na ellir lleoli plentyn, ac ar ôl gwneud pob ymdrech rhesymol i leoli'r plentyn, dylid rhoi gwybod i'r Heddlu bod yr unigolyn ar goll, ac nid fel cais am archwiliad lles.

Os gofynnir am bresenoldeb yr Heddlu i atal tor heddwch mewn achosion lle mae asiantaeth arall yn bresennol, ni ddylai hyn gael ei drin fel cais i wirio lles ond yn hytrach, galwad arferol am wasanaeth yr Heddlu.

**<u>Y Broses ar gyfer gwneud cais</u>**

Os yw'r Heddlu yn clywed gan aelodau'r cyhoedd am bryderon ynghylch diogelwch, yna dilynir y drefn hon.

- Rhaid i Uwch Ymarferydd neu gyfatebol gytuno ar gais gwirio lles. Os bydd yr adeg o'r dydd yn caniatáu, bydd hefyd opsiwn i drafod y cais gyda'r Ditectif Ringyll o fewn yr Hwb Diogelu.
- Bydd gwybodaeth o ran y cais yn cael ei roi i'r Heddlu drwy alwad ffôn uniongyrchol a chaiff ei gofnodi ar lafar gan ganolfan gyswllt yr Heddlu.

- Dylai lefel y manylion a ddarperir, gynnwys y rheswm dros ofyn am y gwiriad, a gwybodaeth berthnasol arall a gedwir neu a wyddys am y person dan sylw.

- Ar ôl derbyn yr alwad ffôn dylai'r Heddlu agor cofnod o’r digwyddiad a’i throsglwyddo i Sarjant Digwyddiad Ardal yn Ystafell Reoli'r Heddlu i benderfynu ar y camau nesaf a thrafod y cais gyda'r un a atgyfeiriodd.

  Beth bynnag yw'r camau gweithredu terfynol y cytunir arnynt, bydd cofnod cyfrifiadurol yn cael ei greu gan yr Heddlu sy'n cynnwys y canlynol:

- Manylion yr unigolyn sy’n gofyn am wiriad lles (gan gynnwys rhif ffôn)
- Manylion yr unigolyn y credir ei fod mewn perygl.
- Pwrpas y gwiriad lles.
- Llinell amser tan y dyddiad ar y pryd - Pan oedd y risg yn hysbys am y tro cyntaf a pha gamau sydd eisoes wedi'u cymryd i bennu lles y person.
- Swyddogion sy’n bresennol i ystyried unrhyw risgiau y gwyddys amdanynt ee, trais, iechyd meddwl ac ati.
- Os bydd gwiriad yn debygol o fod y tu allan i oriau, manylion cyswllt yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu gadarnhad bod y Tîm Dyletswydd mewn Argyfwng (EDT) yn ymwybodol o’r cais.

**Dylid darparu a chofnodi gwybodaeth ar gyfer y cais gan ddefnyddio'r fformat a'r arweiniad canlynol:**

1. **Y deallusrwydd a’r wybodaeth sydd ar gael.**

2. **Asesiad o’r** Bygythiad / Niwed / Perygl

- **Bygythiad – i bwy?** Enw/enwau’r unigolyn/unigolion

- **Niwed - rhag beth?** Os oes bygythiad i fwy nag un unigolyn dylai hyn amlinellu’r niwed a ganfyddir i bawb a enwir uchod.

  Pa niwed allai'r plentyn neu'r oedolyn fod mewn perygl ohono neu efallai ei fod/eu bod eisoes wedi cael niwed e.e., marwolaeth, cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol ac ati a gan bwy

- **Perygl** - **pa mor debygol yw hyn o ddigwydd?**

  Bydd hyn yn rhoi'r rhesymeg dros y gred y daw niwed sylweddol i'r plentyn neu'r oedolyn a dylai ystyried pa mor ddi-oed y credir yw'r niwed hwnnw.

  Gall hyn fod yn anodd ei ddiffinio a'i ragnodi a bydd pob achos yn wahanol. Fodd bynnag, gall hyn gynnwys arsylwadau neu wybodaeth gan weithwyr proffesiynol, troseddau blaenorol, ymddygiad, newid mewn patrymau ymddygiad, cadarnhad o'r wybodaeth, cyfryngau cymdeithasol, gwybodaeth gan drydydd parti, asesiad proffesiynol, sbardunau sy'n hysbys, arwyddion o gam fanteisio, ymddygiad sy'n dwysau.

3. **Ystyriaethau a Phwerau Cyfreithiol**

   Er y bydd yr Heddlu yn asesu'r sefyllfa o ran presenoldeb a'r angen i ddefnyddio pwerau sydd ar gael iddynt, fel gorfodi mynediad i eiddo, bydd yn bwysig rhoi manylion unrhyw orchmynion llys sydd ar waith neu gyngor cyfreithiol a gymerwyd hyd yma ynghylch yr unigolyn.

## 4. Opsiynau a Chynlluniau wrth gefn

Rhaid i asiantaethau sy’n gwneud cais am wiriad lles ystyried cynllun wrth gefn, os bydd y gwasanaethau tu allan i oriau yn hysbysu’r Tîm Dyletswydd mewn Argyfwng.

Dylai cynlluniau wrth gefn ystyried:

Ydy plentyn mewn perygl o niwed sylweddol? Ble fyddai modd mynd â'r plentyn fel man diogel? Oes 'na aelodau o'r teulu/ffrindiau neu leoliad maeth wrth gefn? A oes gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb rhiant, neu a fydd angen Pwerau Diogelu yr Heddlu (PPP)?

Yn yr un modd, o ran oedolyn sydd mewn perygl o niwed, dylid ystyried cludo'r unigolyn i fan diogel h.y., rhwydweithiau teuluol am gymorth.

Ar ôl gwneud y gwiriad a dod o hyd i’r plentyn neu'r oedolyn, beth yw'r camau gweithredu arfaethedig o ran yr unigolyn? Bydd hyn yn arbennig o bwysig o ran plentyn neu oedolyn y mae ei iechyd meddwl yn dioddef.

Ai’r Heddlu yw’r adnodd orau i’w anfon i liniaru’r perygl?

A oes asiantaeth arall sydd mewn gwell sefyllfa i ddelio â’r perygl?

Gall presenoldeb swyddog yr Heddlu mewn lifrai gael effaith negyddol sylweddol ar blentyn neu oedolyn bregus, ac felly rhaid defnyddio swyddogion heddlu pan fydd hynny'n angenrheidiol a chymesur o dan yr amgylchiadau.

Dylai staff ystafell reoli'r heddlu drafod gyda'r ymarferydd sy'n gofyn am y gwiriad pa gynlluniau sydd ar waith i ddarparu asesiad a/neu ofal meddygol i'r plentyn neu'r oedolyn pan fyddant wedi dod o hyd iddo/iddynt. Gall y cynlluniau gynnwys:

- Galw am ambiwlans brys ac ystyried problemau capasiti meddyliol
- Galw'r tîm iechyd meddwl cymunedol a gofyn iddynt drefnu asesiad Deddf Iechyd Meddwl 1983 (MHA 1983) ar frys
- Cyfeirio at adran ddamweiniau ac achosion brys yr ysbyty yn wirfoddol neu at eu meddyg teulu am apwyntiad dilynol.

Efallai y bydd ymarferydd gofal iechyd sy'n gwneud archwiliad gweledol neu'n gofyn cwestiynau clinigol yn gallu asesu diogelwch a lles plentyn neu oedolion, tra bod swyddogion heddlu ond yn gallu cynghori unigolyn i geisio asesiad a chefnogaeth feddygol. Yn wahanol i'r Heddlu, mae gan ymarferwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol y gallu cyfreithiol i drefnu i gadw plentyn neu oedolyn o fewn eu hannedd eu hunain.

## 5. Gweithredu

Pa gamau gweithredu sydd eu hangen?

Unwaith y cytunir ar gam gweithredu rhwng Sarjant Digwyddiadau Ardal yr Heddlu (neu Sarjant arall os nad yw'r Sarjant Digwyddiadau Ardal ar gael) a'r atgyfeiriwr, bydd y camau arfaethedig yn cael eu cofnodi yn llyfr digwyddiadau'r Heddlu.

Bydd y gwiriad yn cael ei ddyrannu i adnodd plismona priodol ei fynychu, a dylid darparu asesiad o'r amserlen o ran presenoldeb, i'r un a atgyfeiriodd.

## 6. Adolygiad

Bydd yr Heddlu'n cadarnhau'r gwiriad lles yn y ffurf a gytunwyd pan ofynnwyd amdano, ee galwad ffôn i'r un a atgyfeiriodd, yn uniongyrchol i'r Tîm Dyletswydd mewn Argyfwng y tu allan i oriau, neu'n ysgrifenedig, a bydd hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r gwiriad gael ei gwblhau.

Gellir cytuno ar wybodaeth ychwanegol ar adeg y cais ond dylai hyn gynnwys, o leiaf:

- Manylion swyddog yr Heddlu sy'n cwblhau'r gwiriad.
- Pryd y cafodd y gwiriad ei gwblhau.
- Manylion y sawl a gafodd ei weld/eu gweld a phwy oedd yn bresennol.
- Unrhyw bryderon/peryglon.
- Crynodeb o'r camau gweithredu a ddilynwyd.

**Ym mhob achos bydd Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd yn cael ei gwblhau gan y swyddog oedd yn bresennol a gall fod yn fwy priodol ac effeithlon i anfon copi o'r gwiriad at yr un a atgyfeiriodd.**

**Rhaid i asiantaethau sy'n gwneud neu dderbyn cais lynu at unrhyw bolisi neu gyfarwyddyd fewnol sy'n berthnasol i'r asiantaeth, a chyfeirio ato.**

Os bydd yr Heddlu'n cwblhau 'gwiriad lles' **rhaid** i'r swyddog/ion sy'n cwblhau'r gwiriad **gyfleu'r diweddaraf i'r asiantaeth berthnasol** a diweddaru'r digwyddiad ar NICHE i gadarnhau eu bod wedi gwneud hyn. **Ymhob achos, RHAID i swyddogion gyflwyno ffurflen atgyfeirio PPN.**

**Ceisiadau am Wiriadau Lles Nad ydynt yn Ymwneud â Gwent**

Os bydd Heddlu neu Asiantaeth/Gofal Cymdeithasol arall o'r tu allan i Went yn gwneud cais am wiriad lles, yna dylid cymhwyso'r un meini prawf.

**Pan na ddiwellir y trothwy am wiriad lles**

Os na fodlonir y trothwy ar gyfer presenoldeb yr Heddlu, bydd y mater a phenderfyniad ynghylch y mater hwnnw, yn parhau i fod yn fater i'r asiantaeth sy'n atgyfeirio.

Os gwrthodir y cais ar ôl ei gofnodi'n gychwynnol neu ar ôl asesiad, yna rhaid i'r Sarjant rhoi gwybod i'r atgyfeiriwr am hyn. Os nad yw'r atgyfeiriwr ar gael oherwydd yr adeg o'r dydd, rhaid rhoi gwybod i'r Tîm Dyletswydd mewn Argyfwng (EDT) am hyn gan gydnabod y cyfle i uwchgyfeirio'r penderfyniad.

Gall gael ei ystyried yn briodol o bryd i'w gilydd i'r Heddlu fynd gydag asiantaeth arall i gynnal gwiriad o'r fath, ond bydd angen asesu hyn fesul achos. Mater i'r asiantaeth sy'n atgyfeirio yw darparu'r wybodaeth berthnasol er mwyn cefnogi'r angen am bresenoldeb yr Heddlu.

**Polisi Uwchgyfeirio**

Os bydd anghytundeb rhwng yr asiantaeth sy'n atgyfeirio a'r Heddlu, dylid atgyfeirio'r mater at Reolwr Digwyddiadau'r Heddlu (FIM) ac, os ydyw tu allan i oriau, Rheolwr y Tîm Dyletswyddau mewn Argyfwng (EDT) fydd yn gyfrifol am benderfynu a fydd angen defnyddio adnoddau'r Heddlu.

Os oes gan unrhyw asiantaeth bryderon neu adborth ar naill ai addasrwydd cais neu ymateb, yna dylid codi hyn er mwyn datrys ac ystyried hyn, a hynny naill ai gerbron Uwch Reolwr o fewn yr asiantaeth neu Dditectif Uwch-arolygydd Diogelu'r Cyhoedd.